Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

# Adroddiad blynyddol ynglŷn â chydraddoldeb

## 2018-2019

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad blynyddol hwn ynglŷn â chydraddoldeb yn amlinellu'r cynnydd y mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi'i wneud i gyflawni chwech o'n hamcanion cydraddoldeb yn ystod 2018-2019.

Mae gofyn inni drwy'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol (ar gyfer Cymru) adrodd yn flynyddol ynglŷn â sut yr ydym wedi cwrdd â dyletswydd cydraddoldeb cyffredinol y sector cyhoeddus (y ddyletswydd gyffredinol) fel ag a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Yn 2018, gwnaethom gyhoeddi ein *Cynllun Cydraddoldeb Strategol* cyntaf yn amlinellu sut y byddwn ni, drwy ein swyddogaeth a'n gweithrediadau, yn hyrwyddo a symud cydraddoldeb cyfle ymlaen ar gyfer y cymunedau yr ydym ni yn eu gwasanaethu. Y rhain yw'r:

- bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr
- y gweithlu sy'n darparu gofal a chymorth
- ein staff.

Roedd datblygu ein cynllun cydraddoldeb strategol yn rhoi cyfle inni egluro ein hymrwymiad tuag at gydraddoldeb a chydnabod ein swyddogaeth arweinyddiaeth yn y sector, yn ogystal â'n cyfrifoldeb i ddylanwadu ar bobl eraill er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith yr ydym ni yn ei wneud i gryfhau ein hadrodd a'n hymgysylltiad mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig. Yn ogystal, mae'n amlinellu sut yr ydym yn ymwreiddio cydraddoldeb yn y cymwysterau newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnal a gofal plant, ac yn yr isadeiledd ar gyfer eu hasesu.

Dyfynnwyd am ein gwaith o ehangu'r amrywiaeth o benodiadau ar ein Bwrdd fel astudiaeth achos arloesol yn yr adolygiad annibynnol a wnaed gan yr Arglwydd Holmes ynglŷn â sut y gall bobl anabl gael mynediad at swyddi cyhoeddus.
Er bod yr adroddiad hwn yn ceisio darparu cofnod o'n gwaith yn ystod y flwyddyn, rydym yn ogystal wedi amlinellu, lle y bo'n berthnasol, rhai o'n blaenoriaethau yn y dyfodol. Yn bwysig, rydym wedi gosod cydraddoldeb ac amrywiaeth fel trywydd canolog yn strategaeth ddatblygol y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Gobeithiwn y bydd hyn yn rhoi cyfle sylweddol i'r sector ymwreiddio a hyrwyddo'r nodau sy'n ategu'r adroddiad hwn.

Ar ddiwedd yr adroddiad hwn, rydym yn ogystal yn amlinellu'r camau gweithredu penodol a fydd yn dilyn ohono.



# 2. Pwy ydym ni

Fe'n sefydlwyd yn Ebrill 2017, gan ddod â rheoleiddio gweithlu gofal cymdeithasol, datblygu'r gweithlu a gwella gwasanaethau ynghyd yn un sefydliad. Yn ogystal, rydym ynghlwm â llunio blaenoriaethau'r ymchwil ar gyfer gofal cymdeithasol a datblygu cysylltiadau cryfach â gofal a chymorth.

Ein gweledigaeth yw i bob unigolyn sydd angen gofal a chymorth fyw'r bywyd sydd o bwys iddyn nhw. Mae gennym swyddogaeth hanfodol i'w chwarae mewn gwella canlyniadau llesiant i blant ac oedolion sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr.



# 3. Gwybodaeth berthnasol ynglŷn â chydraddoldeb

Datgana'r canllawiau anstatudol ynglŷn ag adrodd am gydraddoldeb y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (y comisiwn) fod:

> **"Rhaid i adroddiad cydraddoldeb blynyddol amlinellu yn benodol:**
>
> - **y camau y mae'r awdurdod wedi'u cymryd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol**
> - **datganiad ynglŷn ag effeithiolrwydd trefniadau'r awdurdod ynglŷn â nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol."[1]**

Mae gennym drefniadau effeithiol ar gyfer nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol ynglŷn â chydraddoldeb am ein staff a'n partneriaid. Rydym yn nodi ac yn casglu'r data hwn drwy:

- fonitro cydraddoldeb ein staff
- y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol (y Gofrestr)
- y Set Ddata Gofal Cymdeithasol Genedlaethol i Gymru
- cyflawni rhaglenni hyfforddi cenedlaethol.

Nid ein nod ni yw casglu a chael mynediad at ddata cydraddoldeb, ond ymwreiddio tystiolaeth ynglŷn â chydraddoldeb yn ein gwaith. Mae casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol yn rhan hanfodol o gwrdd â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol. Rydym yn dymuno sicrhau bod gennym ni'r dystiolaeth orau bosibl er mwyn ein galluogi ni i osod amcanion ystyrlon ac ymgymryd ag asesiadau effaith yn seiliedig ar y wybodaeth lawn.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o adrodd, rydym yn rhannu canlyniadau ein dulliau i nodi a chasglu data perthnasol ynglŷn â chydraddoldeb yn Atodiad 1.

1. Canllawiau anstatudol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynglŷn ag adrodd am gydraddoldeb

# 4. Amcanion Cydraddoldeb

Darparwyd gwybodaeth ynglŷn â datblygiad chwech o'n hamcanion cydraddoldeb, a amlinellir yn adran 5, gan bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Diben gosod amcanion cydraddoldeb yw helpu cyrff cyhoeddus i berfformio'r ddyletswydd gyffredinol yn well.

Fel corff cyhoeddus rhestredig, sy'n amodol ar y ddyletswydd gyffredinol, mae'n **rhaid** inni, wrth ymarfer ein swyddogaethau, roi **sylw dyledus** i'r angen i:

- gael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydyn nhw'n ei rhannu
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydyn nhw'n ei rhannu.

Mae amcanion cydraddoldeb yn helpu i ganolbwyntio sylw ar faterion cydraddoldeb sydd â blaenoriaeth mewn sefydliad, fel y gall gyflawni gwelliannau wrth lunio polisïau, darparu gwasanaethau a chyflogaeth, gan gynnwys dyrannu adnoddau[2].

# 5. Cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb

Er mwyn bod yn sefydliad effeithiol a thryloyw, mae'n bwysig ein bod yn adrodd ynglŷn â'n perfformiad yn rheolaidd ac yn ceisio cael adborth. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adlewyrchu'r camau, y camau gweithredu a'r mentrau yr ydym wedi'u cymryd i gyflawni chwech o'n hamcanion cydraddoldeb.

## Amcan 1 – Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r *Côd Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol* (y Côd) ymysg pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr

### Pam mae hwn yn un o'n hamcanion?

- Rydym yn dymuno sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn gwybod am y Côd. Mae'r safonau yn bodoli i helpu sicrhau bod gan bobl y cymorth y maen nhw ei angen i fyw eu bywydau yn y ffordd sy'n adlewyrchu eu hanghenion.
- Rydym wedi casglu'r dystiolaeth sy'n awgrymu mai ychydig o wybodaeth neu nid oes unrhyw wybodaeth o gwbl gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ynglŷn â'r Côd. Gyda'r dystiolaeth gychwynnol hon, rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio amrediad o offer ac adnoddau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Côd ymysg y bobl amrywiol sy'n defnyddio gofal a chymorth yng Nghymru.

### Beth rydym ni wedi'i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?

- Rydym wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau a mannau penodol yn y gymuned er mwyn rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r Côd.

2. *Amcanion a'r Ddyletswydd Gydraddoldeb: Canllawiau i Awdurdodau Cyhoeddus*, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2014

- Er enghraifft, rydym wedi sefydlu rhestr o gysylltiadau sy'n cynnwys amrediad o sefydliadau ac unigolion sy'n cynrychioli buddiannau pobl a chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) drwy Gymru, fel *Diverse Cymru*, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (TCEI), *Race Equality First* a *Women Connect First*. Ein nod yw gweithio gyda'r cysylltiadau hyn er mwyn ein helpu ni rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r Côd i gynulleidfa mor eang ag sy'n bosibl.

- Yn ogystal, rydym wedi canolbwyntio ein hymgysylltiad ar hybiau cymunedol lleol oherwydd eu bod yn ffordd werthfawr ac effeithiol o gyrraedd nifer fawr o bobl o amrediad o gefndiroedd a chymunedau, fel grwpiau BME, pobl hŷn a phobl ag anableddau dysgu. Er enghraifft, mae'r nifer o bobl sy'n mynychu Hyb Cymunedol Trelái, sydd yn un o'r hybiau mwyaf yng Nghaerdydd, oddeutu 18,000 y mis, ac mae llawer o'r bobl sy'n ymweld ymysg y rhai hynny sy'n wahanol iawn i'r gweithlu.

- Rydym wedi cael ymgysylltiad da â chynghorau'r trydydd sector, sydd wedi bod yn arbennig o gymwynasgar wrth wneud cysylltiadau drwy'r sector iechyd ar gyfer hyrwyddo *Chi a'ch Gweithiwr Gofal Cymdeithasol*, llyfryn gwybodaeth byr ynglŷn â'r Côd ar gyfer y cyhoedd. Yn ogystal, rydym wedi cysylltu â swyddogion mewn clystyrau lleol y byrddau iechyd er mwyn ein helpu ni i ddosbarthu'r llyfryn mewn meddygfeydd meddygon teulu.

- Rydym ni wedi cynhyrchu fideo Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ynglŷn â'r Côd ar gyfer y rhai hynny sy'n defnyddio BSL fel iaith gyntaf er mwyn codi eu hymwybyddiaeth ynglŷn â beth y gallan nhw ddisgwyl gan eu gweithiwr gofal. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo'r adnodd hon, drwy rwydweithiau sefydledig, fel clybiau'r byddar, cylchgronau'r byddar ac eiriolwyr sy'n gweithio i sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau'r cymunedau byddar a thrwm eu clyw.

- Dyma grynodeb o'r ymgysylltiad yr ydym wedi'i wneud â'r grwpiau nodweddion gwarchodedig yr ydym wedi ymdrin â nhw:

**Tabl 1: Ymgysylltiad a wnaed gyda grwpiau/sefydliadau er mwyn ymdrin â'r bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr**

| Grŵp/sefydliad | Nodweddion gwarchodedig (cynulleidfa) |
|---|---|
| *Race Equality First* | BME, pobl hŷn |
| *Diverse Cymru* | Yr holl nodweddion gwarchodedig |
| Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru | BME, pobl hŷn |
| Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru | BME, oed |
| Cynghorau'r Trydydd Sector | BME, pobl hŷn, anabledd dysgu |
| Hybiau Cymunedol Awdurdodau Lleol | BME, pobl hŷn, anabledd dysgu, oed |
| *Women Connect First* | BME, pobl hŷn |
| *BAWSO* | BME, merched, pobl hŷn |
| *Race Council Cymru* | BME |

- Yn 2019-2020, byddwn yn parhau gyda'r dull hwn, gan weithio gyda'n cysylltiadau sydd wedi hen sefydlu er mwyn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.

- Byddwn yn ogystal yn ehangu cwmpas y gwaith hwn er mwyn ymgysylltu â grwpiau nodweddion gwarchodedig eraill.

- Un o'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod fydd codi ymwybyddiaeth o'r Côd ymysg plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, fel eu bod yn gwybod beth y dylen nhw ddisgwyl gan eu gweithwyr gofal cymdeithasol.

## Amcan 2 – Ymchwilio a rhannu ymarfer da sy'n cefnogi gwell canlyniadau i bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth

### Pam mae hwn yn un o'n hamcanion?

Rydym yn dymuno cael gwell canlyniadau i blant ac oedolion sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Rydym yn dymuno deall a rhannu ymarfer da, sy'n ymateb i anghenion gofal a chymorth y cymunedau amrywiol yng Nghymru.

### Beth rydym wedi'i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?

- Rydym wedi bod yn rhan o brosiect partneriaeth gyda Phrifysgol Bryste a'r *Diversity Trust* i ddatblygu adnodd ar-lein yn seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn â chreu amgylcheddau cartrefi gofal cynhwysol ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT).

- Mae'r adnodd ar-lein hwn yn ceisio darparu rheolwyr a staff cartrefi gofal gydag offer ar gyfer arwain trafodaethau a sesiynau addysgol ynglŷn â phwysigrwydd hyrwyddo cydraddoldeb rhwng preswylwyr a gwerthfawrogi amrywiaeth ymysg staff a phreswylwyr.

- Un o'r meysydd ffocws yn y cynllun gweithredu ar gyfer *Gofal a chymorth yn y cartref yng Nghymru: Cynllun strategol pum mlynedd 2017-2022* yw'r angen i sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, a'u gofalwyr yn bartneriaid cyfartal, sy'n gallu defnyddio eu sgiliau a'u profiadau er mwyn helpu i wneud penderfyniadau.

- Yn ystod 2018-2019, buom yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i nodi dull ar gyfer casglu darlun cenedlaethol, sydd hefyd yn cwrdd ag anghenion rhanbarthol, ynglŷn ag effaith lleisiau unigolion a gofalwyr ar bolisi rhanbarthol, comisiynu a gwella gwasanaethau ar gyfer gofal a chymorth yn y cartref.

- Roedd y gwaith hwn yn cynnwys ymgysylltiad eang ag amrediad o bobl a grwpiau, yn cynnwys pobl gydag anabledd dysgu, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl yn byw efo dementia, gofalwyr ifanc, gofalwyr a phobl hŷn.

- Gwnaethom ddatblygu pecyn hyfforddi rhad ac am ddim ar gyfer dementia er mwyn helpu'r rhai hynny sy'n gweithio gyda phobl â dementia. Mae *Un mewn Miliwn* yn sesiwn hyfforddi dwy awr a hanner a gynhelir mewn dosbarth sy'n datblygu'r hyfforddiant Cyfeillion Dementia. Mae'n rhoi gwell ddealltwriaeth i staff gofal cymdeithasol ynglŷn â dementia a'i amryfal ffurfiau.

- Gwnaethom lansio adnodd ar-lein ar gyfer dementia ym mis Hydref 2018 ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r adnodd yn cefnogi ymarfer da mewn gofal dementia drwy roi mynediad i weithwyr proffesiynol gofal at wybodaeth, astudiaethau achos, data ac ymchwil hanfodol. Buom yn gweithio gyda gweithwyr y rheng flaen, rheolwyr ac academyddion drwy'r sector er mwyn llunio'r adnodd ar bob cam o'i ddatblygiad.



## Amcan 3 – Cefnogi'r sector i gyflawni gweithlu amrywiol a chynrychioladol

### Pam mae hwn yn un o'n hamcanion?

Rydym yn dymuno cael gweithlu gofal cymdeithasol sy'n fwy cynrychioladol o'r cymunedau y mae'n ei wasanaethu, yn arbennig felly lle mae gennym ni dystiolaeth o dangynrychiolaeth. Rydym yn dymuno gweithio gyda phartneriaid i nodi ac ymdrin â'r rhwystrau a all atal pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig rhag ymuno â'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth wedi dweud wrthym ni bod gweithlu amrywiol yn dod ag amrediad o syniadau, profiadau a sgiliau ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ffordd y mae'r gofal yn cael ei ddarparu. Yn ogystal, gwnaethon nhw ddweud wrthym ei bod yn hanfodol i hyrwyddo gofal cymdeithasol fel proffesiwn sy'n cael ei werthfawrogi a sicrhau bod amrediad o lwybrau mynediad ar gael i bobl ymuno â'r sector. Rydym yn ymrwymedig i gefnogi cynaliadwyedd y gweithlu drwy ddatblygu a gweithredu strategaeth y gweithlu a chynhyrchu adnoddau er mwyn cefnogi cyflogwyr a'r gweithlu.

### Beth ydym ni wedi'i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?

- Gwnaethom lansio'r ymgyrch Gofalwn Cymru ym mis Mawrth 2018. Ymgyrch genedlaethol i ddenu, recriwtio a chadw staff ar gyfer gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yw hon. Mae'n ceisio codi proffil y sectorau hyn, ac yn ei thro, helpu pobl i gael gwell dealltwriaeth o'r amrediad o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael iddyn nhw. Darparwyd gwybodaeth ar gyfer yr ymgyrch gan astudiaeth canfyddiadau'r cyhoedd. Roedd un o'r prif negeseuon a ddeilliodd o'r astudiaeth hon yn gysylltiedig â rhyw, oherwydd ei fod yn tynnu sylw at y ffaith bod cefnogaeth gyhoeddus ar gyfer dynion sy'n gweithio yn y sector. Fodd bynnag, mae ystadegau[3] yn dangos nad yw hyn yn cael ei adlewyrchu yng ngweithlu presennol gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yn cynnwys amrediad amrywiol o bobl o lawer o ddiwylliannau ac ethnigrwyddau ynghyd â phobl anabl. Mae'n hanfodol fod ymgyrch recriwtio ar gyfer y sectorau hyn yn adlewyrchu ac yn tynnu sylw at yr amrywiaeth o bobl sy'n gweithio yn y sector, ac mae hynny yn brif offeryn i'n helpu ni gefnogi'r sector er mwyn cyflawni gweithlu amrywiol a chynrychioladol.
- Mae'r ymgyrch yn cynnwys amrediad o ffotograffau ac astudiaethau achos fideo ac rydym yn defnyddio'r rhain er mwyn atgyfnerthu'r negeseuon ynglŷn ag amrywiaeth a chydraddoldeb.
- Mae'r ymgyrch yn ddwyieithog, ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd yr iaith Gymraeg ac mae'n tynnu sylw at yr effaith sylweddol sydd gan iaith wrth ddarparu gofal.
- Bydd yr ymgyrch Gofalwn Cymru yn parhau i fod yn gyfrwng pwysig ar gyfer hyrwyddo gweithlu amrywiol yng Nghymru. Bydd y ffocws hwn yn helpu i godi ymwybyddiaeth ynglŷn ag amrywiaeth y gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar, y pwysigrwydd sydd gan amrywiaeth ar y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gweithlu a bydd yn helpu i ddenu gweithlu amrywiol i ymuno â'r sector.
- Mae datblygiad strategaeth y gweithlu yn 2019-2020 a'i gweithrediad parhaus dros y 10 mlynedd nesaf yn darparu cyfle arwyddocaol i ymwreiddio a hyrwyddo egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gweithlu. Bydd hyn yn gweithredu fel sylfaen ar gyfer ein gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.

3. Cofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

## Amcan 4 – Sicrhau bod cydraddoldeb, hawliau dynol, urddas a pharch yn parhau i ategu hyfforddiant gofal cymdeithasol.

### Pam mae hwn yn un o'n hamcanion?

Mae gofal cymdeithasol yng Nghymru yn newid. Mae mwy o bobl gyda nodweddion gwarchodedig angen gofal a chymorth, ac maen nhw'n mynnu derbyn gofal a chymorth sy'n cwrdd â'u hanghenion. Felly, mae'n bwysig, os nad yw'n hanfodol, fod cydraddoldeb yn ganolog yn hyfforddiant y gweithlu.

Rydym yn dymuno sicrhau bod y gweithlu yn cael ei gefnogi a'i fod yn darparu gofal cymdeithasol yn unol â'r gyfraith, a bod ei ymarfer yn adlewyrchu egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

### Beth rydym wedi'i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?

- Rydym wedi gweithio gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau bod y gyfres newydd o gymwysterau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yn adlewyrchu cydraddoldeb, urddas a pharch. Mae'r themâu pwysig hyn wedi cael eu hymwreiddio yn yr holl gynnwys.

- Gwnaethom gefnogi Cymwysterau Cymru a'r cyrff dyfarnu i ddatblygu isadeiledd ar gyfer asesu'r cymwysterau newydd sy'n cael ei ategu gan y gwerthoedd o gydraddoldeb, urddas a pharch.

- Wrth i gymwysterau newydd gael eu cyflwyno yn ystod 2019-2020, byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid er mwyn asesu sut mae'r cymwysterau a'u hasesiadau yn helpu i ymwreiddio'r egwyddorion ac ymarfer gorau o gydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Amcan 5 – Recriwtio a chadw gweithlu cynrychioladol gyda'r sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb cyfle.

### Pam mae hwn yn un o'n hamcanion?

Ein gweithlu (yn Gofal Cymdeithasol Cymru) yw un o'n hadnoddau mwyaf gwerthfawr. Rydym yn ymrwymedig i symud cydraddoldeb ac amrywiaeth ymlaen a chael gwared â phob math o wahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu yn y gweithlu.

Mae gweithlu mwy amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn well yn parhau yn ganolog i'n hymdrechion o greu gweithle cynhwysol a gweithle ar gyfer dysgu. Rydym yn dymuno i'n staff fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ar gyfer symud ymlaen gyda chydraddoldeb cyfle a meithrin cysylltiadau da. Byddwn yn cyflawni hyn drwy hyfforddiant a gweithgareddau datblygu sydd wedi cael eu targedu.

### Beth rydym wedi'i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?

- Yn ystod 2018-2019, gwnaethom fonitro ein gweithgaredd recriwtio ar bob cam er mwyn darganfod beth oedd proffil cydraddoldeb ein hymgeiswyr. Gwnaethom gynllunio i gynnal adolygiad ar ôl pob ymgyrch recriwtio er mwyn gweld a oeddem angen ymgymryd â mwy o gamau gweithredu penodol i hyrwyddo ein swyddi gwag ar gyfer unrhyw grwpiau beb gynrychiolaeth ddigonol.

- Gwnaethom hysbysebu 29 o swyddi yn ystod 2018-2019. Yn anffodus, ni wnaethom dderbyn digon o ffurflenni monitro gan ymgeiswyr er mwyn ein galluogi ni i adolygu ein proffil ymgeiswyr. Er mwyn ceisio gwella'r nifer o ffurflenni y byddwn yn eu derbyn yn 2019-20, byddwn yn adolygu ac yn diwygio'r geiriad sy'n disgrifio pam yr ydym eisiau casglu'r wybodaeth hon, er mwyn annog mwy o ymgeiswyr i'w cwblhau. Yn ogystal, rydym wedi gwahanu'r ffurflen monitro cydraddoldeb oddi wrth y ffurflen gais. Byddwn yn

defnyddio'r setiau data gwell hyn i ddarparu gwybodaeth ar gyfer ein dull ymgeisio a recriwtio.

- Mae'n rhaid i bob aelod newydd o'r staff gwblhau modiwl hyfforddiant ar-lein ynglŷn â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn ystod eu cyfnod cynefino sy'n gysylltiedig â'n fframwaith cynefino gweithwyr a'n cyfnod prawf. O'r 21 aelod newydd o staff a ymunodd yn ystod 2018-2019, cwblhaodd 16 ohonyn nhw yr hyfforddiant ar-lein ynglŷn ag ymwybyddiaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd yn cael ei gyflwyno unwaith eto i'r holl staff ym mis Tachwedd 2019 fel cwrs gloywi blynyddol.

- Mae hyfforddi staff mewn materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan ganolog o'n rhaglen ddysgu sefydliadol. Er enghraifft, gwnaethom drefnu hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod ar gyfer staff fel rhan o'n hymrwymiad i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â sut yr ydym yn gwella hygyrchedd drwy'n holl waith ar gyfer pobl sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw. Cymerwyd rhan gan naw deg chwech o weithwyr yn y sesiynau ymwybyddiaeth o fyddardod hanner diwrnod a drefnwyd ym mis Chwefror a mis Mawrth 2019.



## Amcan 6 – Ymestyn a gwella'r ffyrdd yr ydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd a'r gweithlu

**Pam mae hwn yn un o'n hamcanion?**

Fel sefydliad arweinyddiaeth cyhoeddus, mae'n bwysig inni gynyddu a gwella ein hymgysylltiad â phobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig, os ydym am wireddu ein gweledigaeth.

Rydym yn chwarae rhan hanfodol mewn dod â phobl ynghyd er mwyn gwella ansawdd y gofal a'r cymorth drwy Gymru, ac mae'n bwysig ein bod yn gwneud hynny mewn modd sy'n adlewyrchu ein gwerth o annog a galluogi pawb i weithio gyda'i gilydd. Mae cysylltu ystyrlon gyda chymunedau amrywiol yn ymgyfoethogi ein gwybodaeth a rennir ac yn ein galluogi i gyflawni ein nodau drwy weithio gyda phobl.

**Beth ydym ni wedi'i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?**

- Rydym wedi datblygu canllawiau newydd ar gyfer comisiynu ffilmio er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried anghenion hygyrchedd ar ddechrau ein gwaith fideo.

- Rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod ein gwefan yn cydymffurfio â chyfarwyddeb yr UE ar gyfer hygyrchedd gwefannau. Gwnaethom ddefnyddio *Siteimprove* i fonitro ein gwefan a'n porthol cofrestru ar-lein sef *SCWonline*, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfarwyddeb. Yn y dyfodol, byddwn yn cyhoeddi datganiad hygyrchedd ar ein gwefan sy'n amlinellu'r meysydd lle nad ydyn nhw'n cydymffurfio â'r gyfarwyddeb ac mae hynny yn amlinellu cynllun gweithredu ar gyfer sicrhau bod y meysydd hynny yn cydymffurfio.

- Mae ein cynnig digidol i'r cyhoedd a'r bobl sy'n wedi cofrestru gyda ni yn parhau i ddatblygu ac yn ymateb i gyfleoedd technolegol newydd. Wrth inni ddatblygu ein dull digidol yn y dyfodol, bydd y ffordd y gall wella effeithiolrwydd a hygyrchedd i'r rhai hynny a nodweddion gwarchodedig yn flaenoriaeth glir.

# 6. Cyflog Cyfartal

Rydym yn cynnal adolygiad ynglŷn â chyflogau cyfartal bob blwyddyn er mwyn darganfod a oes yna unrhyw wir anghyfartaleddau neu anghyfartaleddau posibl sy'n ymwneud â chyflog yn y sefydliad – ac os oes rhai, gweithredu i ymdrin â'r rhain.

Yn benodol, rydym yn gwirio nad ydym yn gwahaniaethu yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn gweithiwr neu grŵp o weithwyr drwy ein systemau cyflog.

Mae'r archwiliad yn cynnwys y naw nodwedd warchodedig fel y nodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

- rhyw
- oed
- anabledd
- hil
- ailbennu rhywedd
- beichiogrwydd neu famolaeth
- crefydd neu gred
- cyfeiriadedd rhywiol
- priodas a phartneriaeth sifil.

Cynhaliwyd yr adolygiad olaf ym mis Mawrth 2019 ac mae'r adroddiad llawn ar gael ar ein gwefan.

# 7. Caffael

Fel corff cyhoeddus rhestredig, mae cyfrifoldeb arnom ni i sicrhau ein bod yn cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb yn ein prosesau caffael er mwyn cwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol. Rydym yn darparu cydraddoldeb cyfle yn ein gweithdrefnau caffael, fel bod cyflenwyr yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau i barchu ein hymrwymiad i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cydraddoldeb cyfle a dangos tryloywder.

Yn ogystal, rydym yn dangos datblygiad cynaliadwy drwy ein prosesau a'n gweithgareddau caffael. Rydym yn ystyried pob un o'r tair elfen yn ystod y cyfnod strategaeth/cynllunio caffael.

- datblygu meini prawf gwerth am arian sy'n ystyried effaith economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol tymor byr a hirdymor
- nodi'r wybodaeth yr ydym yn ei dymuno gan ddarpar gyflenwyr, fel y gallwn ni ddefnyddio'r meini prawf hynny yn deg
- gweithio gyda chyflenwyr er mwyn nodi ffyrdd mwy cynaliadwy o gwrdd ag anghenion
- croesawu atebion arloesol gan gyflenwyr, yn cynnwys mentrau bach a chanolig.



# 8. Gwaith yn y dyfodol

Gwelwn y datblygiad o strategaeth y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol fel mecanwaith pwysig i ymwreiddio'r egwyddorion o gydraddoldeb ac amrywiaeth drwy weithlu'r sector. Bydd hyn yn flaenoriaeth yn y dyfodol.

Fodd bynnag, bydd yr adroddiad hwn hefyd yn cael ei ddilyn gan nifer o gamau gweithredu penodol:

### Cynyddu amrywiaeth yn y gweithlu

Rydym yn cydnabod y swyddogaeth bwysig y gall recriwtio ei chwarae wrth ein helpu ni i gyflawni gweithlu mwy amrywiol. Rydym bob amser yn dymuno dysgu a gwneud gwelliannau er mwyn cyflawni gweithlu mwy amrywiol sy'n adlewyrchu yn well y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Erys hyn yn ganolog yn ein hymdrechion o greu gweithle cynhwysol a gweithle lle gellir dysgu. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ni wnaethom dderbyn digon o ffurflenni monitro cydraddoldeb yn ystod 2018-2019 i'n galluogi ni i adolygu ein proffil ymgeiswyr a thargedu gweithredu lle nad oes cynrychiolaeth ddigonol.

**Cam Gweithredu 1 – Cyflawni mwy o amrywiaeth yn y gweithlu, rydym yn cydnabod yr angen i wella ein proses ar gyfer casglu data cydraddoldeb gan y rhai hynny sy'n gwneud cais i weithio gyda ni.**

### Data'r gweithlu mewn perthynas â hyfforddiant, ceisiadau am newidiadau swyddi, disgyblaeth a chwynion

Yn dilyn monitro diweddar, adroddodd y comisiwn nad oedd unrhyw un o'r 73 corff cyhoeddus rhestredig yn cydymffurfio yn llawn â'r ddyletswydd o fonitro cyflogaeth, yn benodol, casglu data'r gweithlu mewn perthynas â hyfforddiant, ceisiadau am newid swyddi, disgyblaeth a chwynion.

**Cam Gweithredu 2 – Byddwn yn gweithredu dull ar gyfer monitro cydraddoldeb mewn perthynas â hyfforddiant staff, ceisiadau am newid swyddi, disgyblaeth a chwynion.**

### Cyflogi mwy o bobl anabl

Yng nghanfyddiadau perthnasol *A yw Cymru'n Decach 2018*[4] , roedd y gyfradd gyflogaeth ar gyfer pobl nad ydyn nhw'n anabl (73.4 y cant) yn fwy na dwywaith y gyfradd ar gyfer pobl anabl (34.6 y cant) yn ystod 2016/2017. Rydym yn parhau i wneud addasiadau rhesymol i gefnogi ein staff ac mae gennym ni amrediad o bolisïau i gefnogi iechyd a llesiant ein staff, gan gynnwys darparu rhaglen cymorth i'r gweithiwr.

**Cam Gweithredu 3 – Byddwn yn ceisio nodi beth arall y gallem ni ei wneud i sicrhau ein bod yn recriwtio ac yn cadw pobl anabl yn ein gweithlu – bydd hyn yn cynnwys cyrraedd achrediad Cyflogwr sy'n Hyderus o ran Anabledd[5].**

### Caffael

Mae ein fframwaith caffael yn cefnogi ein staff wrth iddyn nhw ymgysylltu â chyflenwyr i sicrhau bod ein prosesau a'n gweithdrefnau caffael yn briodol a'u bod yn annog arloesi, hyrwyddo cynaliadwyedd effeithiol, ac yn y pen draw, yn darparu gwerth am arian. Mewn adolygiad yn 2018 ynglŷn â sut mae cyrff cyhoeddus rhestredig yn cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol, tynnodd y comisiwn sylw at y ffaith fod defnyddio'r ddyletswydd gaffael a'r hyn a ellir ei gyflawni gan gyrff cyhoeddus yn faes o bryder cyffredinol.

4. www.equalityhumanrights.com/cy/publication-download/yw-cymru'n-decach-2018
5. https://disabilityconfident.campaign.gov.uk/

**Cam Gweithredu 4 – Byddwn yn asesu ein fframwaith caffael yn erbyn canllawiau anstatudol y comisiwn er mwyn nodi pa welliannau eraill sydd eu hangen er mwyn ymwreiddio cydraddoldeb yn ein fframwaith caffael.**

## Amrywiaeth yn y gweithlu gofal cymdeithasol

Mae pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth wedi dweud wrthym ni bod gweithlu amrywiol yn dod ag amrediad o syniadau, profiadau a sgiliau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar y ffordd y mae gofal yn cael ei ddarparu. Rydym yn dymuno cael gweithlu gofal cymdeithasol sy'n fwy cynrychioladol o'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, yn arbennig felly lle mae gennym ni dystiolaeth o sefyllfa lle nad oes cynrychiolaeth ddigonol.

Nodwyd meysydd mewn astudiaeth ddiweddar ynglŷn â phroffiliau data cydraddoldeb y bobl sydd wedi cofrestru gyda ni lle y gallwn ni weithredu i weithio tuag at weithlu amrywiol. Dyma rai negeseuon sy'n deillio o hyn:

- mae'r gweithlu yn bennaf yn fenywaidd. Mae saith deg saith y cant o weithwyr cymdeithasol a 76 y cant o reolwyr cartrefi gofal yn fenywod.
- mae'n ymddangos bod gan y gweithle lefel isel iawn o anabledd, ac nid oedd unrhyw grŵp ar y Gofrestr yn cofnodi mwy na 2.5 y cant, yn erbyn ffigwr cenedlaethol o 14 y cant.
- mae gan rhai grwpiau cofrestredig (fel rheolwyr gofal cartref) gynrychiolaeth isel iawn gan grwpiau BME.

Yn dilyn o'r adroddiad hwn, byddwn yn gweithio tuag at wella cywirdeb, ehangder a chymharedd y data hwn.

**Cam Gweithredu 5 – Byddwn yn defnyddio'r gofrestr ehangol a'r dechnoleg adrodd sy'n ymddangos i wella ein dealltwriaeth o gyfansoddiad ein gweithlu. Yn ogystal, byddwn yn addasu negeseuon yr ymgyrch ddenu a recriwtio genedlaethol i dargedu'r grwpiau hynny sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithlu gofal cymdeithasol.**

## Gwybodaeth a chyfathrebu hygyrch

Byddwn yn parhau i asesu pa mor dda yr ydym wrth ddarparu gwybodaeth a chyfathrebu er mwyn cwrdd ag anghenion amrywiol y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym eisiau sicrhau bod ein holl sianelau cyfathrebu yn darparu gwybodaeth mewn modd eglur a hygyrch.

**Cam Gweithredu 6 – Byddwn yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod ein gwefan yn cydymffurfio â chyfarwyddeb gan yr UE ar gyfer hygyrchedd gwefannau. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi datganiad hygyrchedd ar ein gwefan yn amlinellu'r meysydd nad ydyn nhw'n cydymffurfio ynghyd â chynllun gweithredu ar gyfer gwneud i'r meysydd hynny gydymffurfio.**



# Manylion cyswllt

Rydym yn croesawu sylwadau ynglŷn â'r adroddiad blynyddol hwn. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu os ydych chi'n dymuno darparu gwybodaeth ar gyfer ein gwaith ar gyflawni ein *cynllun cydraddoldeb strategol* a'n hamcanion cydraddoldeb, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

**Abubakar Askira**
Rheolwr Ymgysylltu a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Cymru
7fed Llawr, Tŷ South Gate
Wood Street
Caerdydd CF10 1EW

**Ffôn:** 02920 780678

# Atodiad un

### Gwybodaeth ynglŷn â chydraddoldeb gan ein staff

Rydym yn cynnal arolwg ynglŷn â chydraddoldeb ac amrywiaeth ein staff. Rydym yn gwneud hyn drwy annog staff i ddiweddaru eu proffiliau amrywiaeth cyn yr archwiliad blynyddol ar gydraddoldeb cyflogau.

**Tabl 1: Proffil amrywiaeth y staff[6]**

<table>
<tr><th></th><th>%</th><th>Cyfartaledd Cymru[7]%</th></tr>
<tr><td>Rhyw</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Gwryw</td><td>28.8</td><td>48.4</td></tr>
<tr><td>Benyw</td><td>71.2</td><td>51.6</td></tr>
<tr><td>Oed</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>18-21</td><td>1.6</td><td>5.5</td></tr>
<tr><td>22-29</td><td>14.4</td><td>11.5</td></tr>
<tr><td>30-39</td><td>44</td><td>12.9</td></tr>
<tr><td>40-49</td><td>24</td><td>13.1</td></tr>
<tr><td>50-59</td><td>12.8</td><td>15.1</td></tr>
<tr><td>60+</td><td>3.2</td><td>22.4</td></tr>
<tr><td>Crefydd</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Anffyddiwr</td><td>7.2</td><td rowspan="2">32.1</td></tr>
<tr><td>Agnostig</td><td>4</td></tr>
<tr><td>Pabydd</td><td>0.8</td><td rowspan="2">57.6</td></tr>
<tr><td>Cristion</td><td>27.2</td></tr>
<tr><td>Mwslim</td><td>1.6</td><td>1.5</td></tr>
<tr><td>Dim crefydd</td><td>20.8</td><td></td></tr>
<tr><td>Ni ddatganwyd</td><td>38.4</td><td></td></tr>
<tr><td>Cyfeiriadedd rhywiol</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Deurywiol</td><td>0.8</td><td></td></tr>
<tr><td>Heterorywiol</td><td>58.4</td><td>93.2</td></tr>
<tr><td>Cyfunrywiol</td><td>1.6</td><td>2</td></tr>
<tr><td>Ni ddatganwyd</td><td>39.2</td><td></td></tr>
</table>

6. Cyfanswm y staff a gyflogwyd ym Mawrth 2019 oedd 125.

7.Ffynhonnell: Rhyw / oed / hil / crefydd / anabledd – StatsCymru. Cyfeiriadedd rhywiol / priod – ONS

| | % | Cyfartaledd Cymru % |
|---|---|---|
| Anabledd | | |
| Ydw | 4.8 | 14 |
| Nac ydw | 58.4 | 86 |
| Ni ddatganwyd | 36.8 | |
| Hil | | |
| Du Affricanaidd | 1.6 | 0.4 |
| Du Caribïaidd | 0.8 | 0.2 |
| Gwyn Asiaidd | 0.8 | 1.8 |
| Gwyn | 50.4 | 96.2 |
| Gwyn – Cymreig | 5.6 | |
| Ni ddatganwyd | 40.8 | |
| Partneriaeth sifil/ Priod | | |
| Ydw | 34.4 | 51 |
| Nac ydw | 25.6 | 49 |
| Ni ddatganwyd | 40 | |
| Rhyw yr un fath ag yr oedd ar enedigaeth | | |
| Ydi | 57.6 | |
| Nac ydi | 0 | |
| Ni ddatganwyd | 42.4 | |



## Proffil amrywiaeth y bobl sydd ar ein Cofrestr

Rydym yn monitro nodweddion gwarchodedig pawb sydd ar ein Cofrestr. Yn ogystal, rydym yn casglu gwybodaeth ynglŷn â sgiliau iaith Gymraeg y bobl sydd wedi cofrestru gyda ni. Rydym yn cyhoeddi proffiliau data bob blwyddyn, ac mae'r rhain yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd gan ymgeiswyr a oedd yn cofrestru ac yn adnewyddu eu cofrestriad gyda ni. Gallwch chi gael mwy o wybodaeth yma: gofalcymdeithasol.cymru/casgliadau/adroddiadau-data-cofrestru-cyfoes

## Set Ddata Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i Gymru

Mae Set Ddata Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol yn ceisio dod â data gofal cymdeithasol ynghyd mewn un lle er mwyn gweld sut mae'r sector gofal cymdeithasol yn perfformio yng Nghymru. Yn 2018-2019, gwnaethom sefydlu grŵp cynghori er mwyn ein helpu ni gynllunio a datblygu'r set ddata.

Gwnaethom weithio yn agos â Data Cymru, sy'n cadw'r set ddata ar ein rhan. Gwnaethom weithio yn agos ag Arolygiaeth Gofal Cymru i wneud y data ar gael ynglŷn â'r niferoedd o wasanaethau gofal a chymorth rheoledig yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol. Mae'r data yn darparu dadansoddiad o'r mathau gwahanol o wasanaethau a lleoedd yn ôl awdurdod lleol ar gyfer 2016/2017 a 2017/2018.

Ym mis Mawrth, gwnaethom ailgyhoeddi data gwariant yr awdurdodau lleol o StatsCymru yn y set ddata. Yn ogystal, rydym wedi gwneud rhywfaint o ddadansoddiad pellach ac wedi cyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â gwariant y pen y boblogaeth ar gyfer y grwpiau nodweddion gwarchodedig canlynol:

- anabledd – pobl gydag anableddau dysgu
- oed – plant sy'n derbyn gofal

Yn ogystal, rydym wedi ychwanegu gwybodaeth diagnosis iechyd yn benodol ar gyfer dementia, iechyd meddwl ac anabledd dysgu o ddata QOF.

Ym mis Ebrill 2019, gwnaethom ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros Daffodil Cymru, offeryn sy'n amlinellu'r galw posibl am wasanaethau gofal a chymorth yn seiliedig ar amcanestyniadau yn y dyfodol ynglŷn â phobl sy'n byw gydag amrediad o gyflyrau iechyd.

Dangosyddion Daffodil Cymru

| Set ddata | Grwpiau |
|---|---|
| Poblogaeth 18+ | • Poblogaeth yn ôl oedran<br>• Poblogaeth yn ôl rhyw/oedran<br>• Grŵp ethnig<br>• Grŵp ethnig fesul canran<br>• Twf mewn cartrefi<br>• Lwfans Byw i'r Anabl a PIP<br>• Lwfans Cyflogaeth a Chymorth |
| Iechyd meddwl | • Problem iechyd meddwl<br>• Cyffuriau – camddefnydd<br>• Cyffuriau – mynediad i'r ysbyty<br>• Alcohol – goryfed mewn pyliau<br>• Hunanladdiad<br>• Goroeswyr cam-drin rhywiol<br>• Dementia |
| Statws byw | • Deiliadaeth<br>• Dim gwres canolog<br>• Darpariaeth gofal di-dâl<br>• Byw ar eu pennau eu hunain |
| Iechyd / anabledd corfforol | • Salwch cyfyngus hirdymor<br>• Tasgau domestig<br>• Symudedd<br>• Hunanofal<br>• Broncitis/emffysema<br>• Ymataliaeth<br>• Canser<br>• Clefyd Siwgr<br>• Cwympiadau – mynediad i'r ysbyty<br>• Nam ar y clyw<br>• Afiechyd y galon<br>• Gordewdra<br>• Strôc<br>• Nam ar y golwg |
| Anabledd dysgu | • Anabledd dysgu – amcangyfrifon sylfaenol<br>• Anabledd dysgu – cymedrol neu ddifrifol<br>• Syndrom Down<br>• Syndrom Down a dementia<br>• Anhwylderau ar y sbectrwm awtistig<br>• Ymddygiad heriol |

**Data cydraddoldeb a gasglwyd wrth gyflwyno'r rhaglenni hyfforddi cenedlaethol**

Mae gennym ni swyddogaeth o wella ansawdd a rheolaeth gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol, a dysgu, datblygu, cymwysterau a hyfforddi'r blynyddoedd cynnar.

Mae'r swyddogaeth hon yn bwysig i helpu sicrhau bod gan y gweithlu gofal cymdeithasol y wybodaeth, y sgiliau, y ddealltwriaeth a'r dull cywir i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da yn y sectorau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar.

Wrth ystyried beth i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn, gwnaethom benderfynu darparu gwybodaeth ynglŷn â chydraddoldeb o'r rhaglen Camu at Reoli. Mae'r rhaglen Camu at Reoli yn darparu gweithwyr gofal a chymorth â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i wneud y trawsnewidiad i swyddogaeth reoli mewn gofal cymdeithasol ac iechyd.

**Tabl 3: Monitro cydraddoldeb ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gohort 4 o'r rhaglen Camu at Reoli (Ionawr 2019)**

| | | Nifer yn 2019 | 2019% |
|---|---|---|---|
| **Rhyw** | | | |
| | Benyw | 26 | 81% |
| | Gwryw | 6 | 19% |
| **Hunaniaeth o ran Rhywedd** | | | |
| A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd yr un fath â'r hyn a bennwyd pan gawsoch eich geni? | Ydi | 31 | 97% |
| | Nac ydi | 0 | 0 |
| | Gwrthodwyd rhoi'r wybodaeth | 1 | 3% |
| **Anabledd** | | | |
| A ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl? | Ydw | 1 | 3% |
| | Nac ydw | 31 | 97% |
| **Ethnigrwydd** | | | |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | Bangladeshaidd | 0 | 0% |
| | Indiaidd | 0 | 0% |
| | Pacistanaidd | 0 | 0% |
| Tsieineaidd | Tsieineaidd | 0 | 0% |
| Asiaidd Arall | Asiaidd Arall | 1 | 3% |
| Du neu Ddu Prydeinig | Affricanaidd | 1 | 3% |
| | Caribïaidd | 0 | 0% |
| | Arall | 0 | 0% |
| Cefndir ethnig cymysg | Gwyn ac Asiaidd | 0 | 0% |
| | Gwyn a Du Affricanaidd | 0 | 0% |
| | Gwyn a Caribïaidd | 0 | 0% |
| | Unrhyw gefndir ethnig cymysg arall | 0 | 0% |
| | Sipsi neu Deithiwr | 0 | 0% |
| Gwyn | Unrhyw gefndir gwyn | 30 | 94% |
| Nid yw'n wybyddus | Nid yw'n wybyddus | 0 | 0% |
| | Gwrthodwyd rhoi'r wybodaeth | 0 | 0% |

| | | Nifer yn 2019 | 2019% |
|---|---|---|---|
| **Cyfeiriad rhywiol** | | | |
| | Deurywiol | 0 | 0% |
| | Heterorywiol/syth | 29 | 91% |
| | Dyn hoyw | 1 | 3% |
| | Dynes hoyw / lesbiad | 1 | 3% |
| | Mae'n well gennyf beidio ag ateb | 0 | 0% |
| | Arall | 1 | 3% |
| **Oed** | | | |
| | 19 ac iau | 0 | 0% |
| | 20-29 | 3 | 9% |
| | 30-39 | 12 | 38% |
| | 40-49 | 8 | 25% |
| | 50-59 | 9 | 28% |
| | 60+ | 0 | 0% |
| **Iaith Gymraeg** | | | |
| Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich gallu i siarad Cymraeg? | Rhugl | 1 | 3% |
| | Rhyw gymaint | 3 | 9% |
| | Dim o gwbl | 28 | 88% |
| **Crefydd** | | | |
| | Dim crefydd | 15 | 47% |
| | Agnostig | 0 | 0% |
| | Anffyddiwr | 0 | 0% |
| | Bwdydd | 0 | 0% |
| | Cristion | 12 | 38% |
| | Hindw | 0 | 0% |
| | Iddew | 0 | 0% |
| | Mwslim | 0 | 0% |
| | Sîc | 0 | 0% |
| | Ysbrydol | 2 | 6% |
| | Mae'n well gen i beidio ag ateb | 1 | 3% |
| | Unrhyw grefydd/gred arall | 2 | 6% |